**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Safonau

**Ystafell Bwyllgor 5, Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Gwener, 7 Gorffennaf 2017 am 9.35 am**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| J A Hale | L G Thomas | |
| **Aelodau Cyfetholedig(wyr)** | **Aelodau Cyfetholedig(wyr)** | **Aelodau Cyfetholedig(wyr)** |
| J Burgess | G Evans | M Williams |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Huw Evans | Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd |
| Allison Lowe | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |
| Tracey Meredith | Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Democrataidd a Deallusrwydd Busne a Swyddog Monitro |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): M B Lewis
Aelodau Cyfetholedig(wyr): P Crayford

---

**1 Ethol cadeirydd ar gyfer blwyddyn ddinesig 2017-2018.**

**Penderfynwyd** ethol Jill Burgess yn Gadeirydd ar gyfer Blwyddyn Ddinesig 2017-2018.

**(Bu Jill Burgess, Cadeirydd Yn Llywyddu)**

**2 Ethol is-gadeirydd ar gyfer blwyddyn ddinesig 2017-2018.**

**Penderfynwyd** ethol Margaret Williams yn Is-gadeirydd ar gyfer Blwyddyn Ddinesig 2017-2018.

**3 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, cyhoeddwyd y buddiannau canlynol:

1) Datganodd y Cynghorydd J A Hale ddiddordeb personol a rhagfarnol yng Nghofnod 10 "Ceisiadau am Esgusodebau" a thynnu'n ôl o'r cyfarfod cyn trafod yr eitem.

## 4 Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 20 Ionawr 2017 fel cofnod cywir.

**Materion a godwyd:**

**Eitem 23 - Y diweddaraf ar Swyddi Gwag Aelod Annibynnol y Pwyllgor Safonau (Llafar)**

Rhoddodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd ddiweddariad ar lafar ynghylch y sefyllfa bresennol. Ar ôl ail-hysbysebu i gynulleidfa ehangach, derbyniwyd 25 o geisiadau.

Bwriedir llunio rhestr fer ar 24 Gorffennaf a chynnal y cyfweliadau ar 4 Medi 2017.

## 5 Protocol Anghydfodau Lleol Enghreifftiol i Gynghorau Tref a Chymunedol.

Rhoddodd y Swyddog Monitro'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor Safonau ar y Protocol Penderfynu Lleol ar gyfer Cynghorau Cymuned a Thref fel a gefnogir gan Un Llais Cymru.

**Penderfynwyd** y dylai'r Pwyllgor Safonau gymeradwyo ac annog mabwysiadu'r Protocol Penderfynu Lleol ar gyfer Cynghorau Cymuned a Thref ac y dylai llythyr gael ei anfon at holl Glercod Cynghorau Cymuned a Thref yn eu hannog i fabwysiadu'r protocol.

## 6 Llyfr Achosion Côd Ymddygiad.

Diweddarodd y Swyddog Monitro'r Pwyllgor Safonau ar Lyfrau Achosion Côd Ymddygiad yr Ombwdsmon.

Tynnodd sylw at achosion penodol yn Rhifyn 11 Ionawr 2017 a Rhifyn 12 Ebrill 2017 a hefyd y tabl ar dudalen 25 y pecyn agenda a ddangosodd y cafwyd 14% yn llai o gwynion côd yn 2015/16. Credodd y PSOW fod hyn oherwydd cyflwyno protocolau penderfynu lleol ar gyfer cynghorau sir.

Rhoddodd hefyd ddiweddariad llafar ar achosion Panel Dyfarnu Cymru.

**Penderfynwyd** y byddai'r diweddaraf yn cael ei nodi.

## 7 Torri Côd Ymddygiad - Cwynion a wnaed i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC).

Darparwyd rhestr o gwynion i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (PSOW) mewn perthynas â thorri'r Côd Ymddygiad gan y Swyddog Monitro.

**Penderfynwyd** y byddai'r adroddiad yn cael ei nodi.

## 8 Cynllun Gwaith 2017-2018 (Llafar).

Amlinellodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd yr eitemau canlynol ar gyfer y cynllun gwaith.

- Achosion Côd Ymddygiad;
- Trafodaethau gydag Arweinwyr Grŵp/Cadeiryddion Pwyllgorau - oherwydd Etholiad Llywodraeth Leol a 2 Arweinydd Grŵp newydd, teimlwyd er mwyn rhoi amser i gynghorwyr newydd "ymgartrefu" y dylai'r trafodaethau hyn ddechrau ym mis Ionawr 2018;
- Hyfforddiant Côd Ymddygiad (yn ogystal, dylai Aelodau Cyfetholedig gael gwybod am ddigwyddiadau hyfforddiant eraill sydd wedi'u trefnu);
- Adolygiad o'r Cylch Gorchwyl a goruchwylio Budd Aelodau.

## 9 Gwahardd y cyhoedd.

Gofynnwyd i'r pwyllgor wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod er mwyn iddo ystyried yr eitem fusnes/eitemau busnes a nodwyd yn argymhellion yr adroddiad ar y sail ei fod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel y nodir ym mharagraff gwahardd 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad i Wybodaeth) (Amrywiad) (Cymru) 2007 mewn perthynas ag eitemau busnes a nodir yn yr adroddiad.

Ystyriodd y Pwyllgor Brawf Budd y Cyhoedd wrth benderfynu a ddylid gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitem fusnes/eitemau busnes lle'r oedd Prawf Budd y Cyhoedd yn berthnasol fel y nodir yn yr adroddiad.

**Penderfynwyd** y dylid gwahardd y cyhoedd ar gyfer yr eitemau busnes canlynol.

**(Sesiwn Gaeedig)**

## 10 Ceisiadau am Ollyngiad.

Darparodd y Swyddog Monitro adroddiad i ystyried ceisiadau ar gyfer esgusodebau mewn perthynas â'r cynghorwyr canlynol:

i) S M Jones
ii) J A Hale
iii) M Thomas
iv) M C Child
v) C A Holley
vi) T M White
vii) F M Gordon

Wrth ystyried caniatáu esgusodebau, rhaid i'r pwyllgor gydbwyso budd y cyhoedd wrth atal aelodau â budd rhagfarnol cymryd rhan mewn penderfyniadau, yn erbyn budd y cyhoedd mewn penderfyniadau a gymerir gan grŵp cynrychioladol o aelodau'r awdurdod.

Bydd methu caniatáu esgusodeb sy'n golygu na fydd cworwm gan awdurdod neu bwyllgor, yn gallu bod yn sail i ganiatáu esgusodeb.

i) **Penderfynodd** y Pwyllgor Safonau roi esgusodeb i'r Cynghorydd S M Jones dan baragraffau 2(d) a Rheoliadau (Caniatáu Esgusodebau) (Cymru) 2001 (fel a ddiwygiwyd), fel a ganlyn:

Aros, siarad a phleidleisio a gwneud sylwadau llafar ac ysgrifenedig o ran materion sy'n ymwneud ag Addysg.

NI fydd yr esgusodeb yn gymwys os yw'r cynghorydd yn dod yn ymwybodol o unrhyw effaith ar berson cysylltiedig (o fewn ystyr paragraff 10 (2) (c) y Côd Ymddygiad) sy'n ymwneud â'i mab ac sy'n benodol iddo.

ii) **Penderfynowyd** y dylai'r Pwyllgor Safonau roi esgusodeb i’r Cynghorydd J A Hale dan baragraffau 2 (d) a Rheoliadau (Caniatáu Esgusodebau) (Cymru) 2011 (fel a ddiwygiwyd), fel a ganlyn:

Aros, siarad a phleidleisio a gwneud sylwadau llafar ac ysgrifenedig o ran materion sy'n ymwneud â'r Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion.

NI fydd yr esgusodeb hwn yn berthnasol os yw'r cynghorydd yn dod yn ymwybodol o unrhyw effaith ar berson cysylltiedig (o fewn ystyr paragraff 10 (2) (c) y Côd Ymddygiad) sy'n ymwneud â'i wraig ac yn benodol iddi.

Mewn perthynas â chais y Cynghorydd J A Hale am Esgusodeb mewn perthynas â'i rôl yn yr Undeb Llafur, gofynnodd y pwyllgor am fwy o wybodaeth am y mater hwn.

iii) **Penderfynodd** y Pwyllgor Safonau roi esgusodeb i'r Cynghorydd M Thomas dan baragraffau 2 (d) a Rheoliadau (Caniatáu Esgusodebau) (Cymru)2001 (fel a ddiwygiwyd), fel a ganlyn:

Aros, siarad a phleidleisio a gwneud sylwadau llafar ac ysgrifenedig o ran materion sy'n ymwneud â'r Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion.

NI fydd yr esgusodeb hwn yn berthnasol os yw'r cynghorydd yn dod yn ymwybodol o unrhyw effaith ar berson cysylltiedig (o fewn ystyr paragraff 10 (2) (c) y Côd Ymddygiad) sy'n ymwneud â'i wraig ac yn benodol iddi.

iv) **Penderfynodd** y Pwyllgor Safonau roi esgusodeb i'r Cynghorydd M C Child dan baragraffau 2 (d) a Rheoliadau (Caniatáu Esgusodebau) (Cymru) 2001 (fel a ddiwygiwyd), fel a ganlyn:

Arfer pwerau gweithredol, aros, siarad a phleidleisio a gwneud sylwadau llafar ac ysgrifenedig o ran materion sy'n ymwneud â'r Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion.

NI fydd yr esgusodeb hwn yn gymwys os yw'r cynghorydd yn dod yn ymwybodol o unrhyw effaith ar berson cysylltiedig (o fewn ystyr paragraff 10 (2) (c) y Côd

Ymddygiad) sy'n ymwneud â Chartref Gofal Tŷ Waunarlwydd a/neu ei fam ac sy'n benodol iddynt.

v) **Penderfynodd** y Pwyllgor Safonau roi esgusodeb i'r Cynghorydd C A Holley dan baragraffau 2 (d) a Rheoliadau (Caniatáu Esgusodebau) (Cymru) 2001 (fel a ddiwygiwyd), fel a ganlyn:

Aros, siarad a phleidleisio a gwneud sylwadau llafar ac ysgrifenedig o ran materion sy'n ymwneud â'r Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion.

NI fydd yr esgusodeb yn gymwys os yw'r cynghorydd yn dod yn ymwybodol o unrhyw effaith ar berson cysylltiedig (o fewn ystyr paragraff 10 (2) (c) y Côd Ymddygiad) sy'n ymwneud â'i ferch ac sy'n benodol iddi.

vi) **PENDERFYNODD** y Pwyllgor Safonau roi esgusodeb i'r Cynghorydd T M White dan baragraffau 2 (d) a Rheoliadau (Caniatáu Esgusodeb) (Cymru) 2001 (fel a ddiwygiwyd), fel a ganlyn:

Aros, siarad a phleidleisio i wneud sylwadau llafar ac ysgrifenedig o ran materion sy'n ymwneud ag Addysg.

NI fydd yr esgusodeb yn gymwys os yw'r cynghorydd yn dod yn ymwybodol o unrhyw effaith ar berson cysylltiedig (o fewn ystyr paragraff 10 (2) (c) y Côd Ymddygiad) sy'n ymwneud â'i ferch ac sy'n benodol iddi.

Mewn perthynas â chais y Cynghorydd T M White am Esgusodeb mewn perthynas â'i fab yn derbyn gostyngiad deiliad perchennog sengl (Treth y Cyngor). Gofynnodd y Pwyllgor am fwy o wybodaeth am y mater hwn.

viii) **Penderfynodd** y Pwyllgor Safonau roi esgusodeb i'r Cynghorydd F M Gordon dan baragraffau 2 (d) a Rheoliadau (Caniatáu Esgusodeb) (Cymru) 2001 (fel a ddiwygiwyd), fel a ganlyn:

Aros, siarad a phleidleisio a chyflwyno sylwadau llafar ac ysgrifenedig o ran materion sy'n cynnwys y Tîm Tlodi, Teuluoedd yn Gyntaf ac Ymyrryd yn Gynnar.

NI fydd yr esgusodeb yn gymwys os yw'r cynghorydd yn dod yn ymwybodol o unrhyw effaith ar berson cysylltiedig (o fewn ystyr paragraff 10 (2) (c) y Côd Ymddygiad) sy'n ymwneud â'i fab ac sy'n benodol iddo.

Daw'r holl esgusodebau uchod i ben yn yr Etholiad Llywodraeth Leol nesaf ym mis Mai 2022.

Daeth y cyfarfod I ben am 11.27 am

**Cadeirydd**